# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 12/04/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Lleucu Jones | Gwynfor Jones |
| Alaw Llewelyn Roberts | Arfon Hughes | Gito Williams | Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts, Rhys Llewelyn, Mared Llywelyn Williams a Caren Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 08/03/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **CCTV Parc y Ddôl**
   Mae'r clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn dweud mai nhw sydd yn gyfrifol am y maes parcio ond nid ydynt yn gallu rhoi camera CCTV yno oherwydd costau.
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd a Un Llais Cymru i gael cyngor cyfreithiol ar roi camerau yno.
   **Rhodfa'r Môr**
   Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe ysgrifennodd y clerc lythyr i'r contractwr yn rhoi 30 diwrnod iddo gychwyn y gwaith yn Rhodfa'r Môr ac mae'r 30 diwrnod yn dod i ben ar y 14eg o Ebrill sef Dydd Iau felly mae angen penderfynnu beth i'w wneud os nad yw'r gwaith yma wedi cychwyn erbyn dydd Iau.
   Penderfyniad: y clerc i ffonio'r contractwr i'w atgoffa i gychwyn y gwaith cyn dydd Iau ac os na fydd hyn yn digwydd i roi tendar arall allan am y gwaith yn syth.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams
   **Cae Coch a Terfynfa**
   Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Adran Stadau Cyngor Gwynedd i holi ynglŷn â rhoi mainc yn Cae Coch a Terfynfa ac mae hi wedi derbyn ffurflenni cais hefo rhestr o beth sydd ei angen i gyflwyno cais.
   Penderfyniad: Dau aelod Morfa Nefyn i benderfynnu ar ddyluniad y meinciau a'i basio ymlaen i'r clerc.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones
   Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â trwsio y railings yn Cae Coch ac wedi cael ymateb y bydd y gwaith yn cael ei wneud yr wythnos yma.
   Holodd y clerc hefyd Cyngor Gwynedd ynglŷn â cymeryd trosodd perchnogaeth o Cae Coch fel fod y Cyngor Tref yn cael rhoi railings mwy deniadol yno a cadw'r llecyn yn daclus ac mae ymateb wedi ei dderbyn gan yr Adran Eiddo yn dweud nad Cyngor Gwynedd sydd berchen y tir ac oherwydd nad yw'r tir wedi ei gofrestru nid oes modd gwybod pwy sydd ei berchen. Mae pryder hefyd bod y tŷ haf drws nesaf i'r llecyn tir yma yn parcio ceir yno ac mae BT yn amlwg wedi cael caniatad perchennog y tir i fynd yno gan eu bod ar y tir yn rheolaidd.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Penderfyniad: cario ymlaen gyda'r cais i roi mainc yno.

5. **Etholiadau mis Mai –** Cadeirydd
   Mae'r clerc wedi derbyn rhestr o ymgeiswyr Cynghorwyr Tref Nefyn gan Cyngor Gwynedd ac mae pob sedd wedi ei llenwi sydd yn galonogol iawn. Gan nad yw'r cadeirydd yn byw yn ardal Cyngor Tref Nefyn mwyach fe fydd yn gadael a hwn yw ei bwyllgor olaf felly mae angen dewis cadeirydd i gadeirio pwyllgor mis nesaf sef y pwyllgor blynyddol ble bydd rhaid wedyn dewis cadeirydd ac is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf ynghŷd â adolygu a pasio'r holl bolisiau a rheolau statudol i gyd.
   Penderfyniad: Cynnigiwyd cadeirydd yr Is-bwyllgor Ariannol i gadeirio y pwyllgor nesaf ac fe dderbyniodd.
   Cynnig: Gito Williams     Eilio: Gwynfor Jones
   Diolchodd yr aelodau i'r cadeirydd am ei holl waith diflino a phob lwc a dymuniad da iddo.
   Diolchodd y cadeirydd i'r aelodau i gyd am eu cefnogaeth.

6. **Adroddiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** Cadeirydd
   Mae adroddiadau llesiant yn cael eu cynhyrchu gan Cyngor Gwynedd a'r Llywodraeth yn flynyddol ac maent yn dweud bod yr Iaith Gymraeg yn ffynnu ond y gwir yw bod y Gymraeg o dan fygythiad a'n cymuned ni yn cael eu bygwth ac mewn perygl o farw allan gan fod cymaint yn methu byw yn eu bro. Cynnig yw hwn i gefnogi llythyr y cadeirydd i'r Swyddog Llesiant Cenedlaethol sy'n dweud nad yw'n hapus hefo'r adroddiadau gan nad ydynt yn defnyddio ystadegau manwl ac felly yn dod i'r casgliad fod bob dim yn dda a'n cymuned ni yn ffynnu sydd ddim yn adlewyrchiad gwir o'r sefyllfa gan fod ein cymunedau o dan warchau ar hyn o bryd oherwydd gormodedd o ail dai.
   Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi llythyr y cadeirydd.
   Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

7. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad
   Mae'r clerc wedi derbyn ymateb gan perchennog y tir ger y fynwent yn dweud nad ydynt eisiau gwerthu'r tir ac felly mae huna yn gadael dau ddewis i'r Cyngor Tref sef ceisio dod o hyd i dir yn rhywle arall neu mynd ar ôl GPG.
   Penderfyniad: Aelod Edern i drefnu cyfarfod eto o'r Is-Bwyllgor Mynwentydd a'r ddau aelod lleol ar y safle i drafod y ffordd ymlaen.

8. **Dyfynbrisiau am y gwaith ar y goeden y tu allan i'r Llyfrgell yn Nefyn**
   Derbyniwyd tri dyfynbris gan gontractwyr lleol.
   Penderfyniad: pasiwyd i fynd hefo'r pris isaf a'r clerc i gysylltu hefo'r contractwr i ddweud wrtho.
   Cynnig: Rhys Tudur     Eilio: Gwynfor Jones

9. **Gweithiwr Achlysurol**
   Gan nad yw'r aelodau oedd eisiau trafod y mater yma yn bresennol heno penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.
   Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Rhys Tudur

10. **Asesiad Lord Newborough**

Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Un Llais Cymru i ofyn os yw'n iawn rhannu'r asesiad a wnaed ar y tir gan Lord Newborough hefo asiantaethau/cwmniau eraill ac mae ymateb wedi ei dderbyn yn dweud ei fod yn iawn ei rannu.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd sef Llyr Beaumont Jones Pennaeth yr Adran Forwrol, Iwan Evans Pennaeth yr Adran Gyfreithiol a Huw Williams Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd i gael arweiniad ar beth i wneud hefo'r asesiad.

**11. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Cylch yr Iaith –** Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg
  Derbyniwyd ebost gan Cylch yr Iaith yn gofyn am gefnogaeth i'w llythyr at y Llywodraeth ynglŷn â gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.
  Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi eu llythyr gyda awgrym iddynt ystyried ysgrifennu at Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CADW i gefnogi eu llythyr hefyd.
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**12. Ceisiadau am gyfraniad ariannol**

- **Kids Cancer Charity –** cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £50.00 iddynt.
  Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Arfon Hughes

**13. Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0284/42/LL –** Town & Country Shoes, Stryd Fawr, Nefyn – Cais llawn ar gyfer newid defnydd llawr gwaelod sy'n siop i fod yn rhan o'r eiddo preswyl ar y lloriau uwchben.
Penderfyniad: Cefnogi'r cais ond gyda sylwadau:

1. Amod i sicrhau y bydd y ffenestri a'r drysau yn cyd-fynd hefo'r adeilad hanesyddol.
2. Mae angen tynnu sylw agosatrwydd yr adeilad at y Dafarn drws nesaf i bwy bynnag sydd yn mynd i fyw yno.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1034.94
- Ad-daliad i'r Clerc am bostio les y Llyfrgell i Cyngor Gwynedd - £1.29
- John Gwynfor Jones – Angladd Robert Wyn Parry - £400.00
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £78.91
- D. M. Parry – Taliad cyntaf mynwent Nefyn - £850.00 & gwaith ychwanegol yn mynwent Nefyn - £100.00 = £950.00
- Clerks & Council's Direct – adnewyddu tanysgrifiad - £100.00
- Npower – Trydan y Llyfrgell mis Mawrth - £182.88
- H M Revenue & Customs – PAYE mis 12 - £106.75
- Proludic – seti swings Parc y Ddôl - £388.66 - o gyfrif Bryn Mynach

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Bryn Noddfa – Cyfraniad at coeden nadolig Morfa - £35.00
- Cronfa AHNE Llŷn – Prosiect Yr Angor - £2475.00
- Clwb Golff Nefyn – Cyfraniad at coeden nadolig Morfa - £40.00
- Sied DIY – Cyfraniad at coeden nadolig Morfa - £20.00
- Siop Gwyneth – Cyfraniad at coeden nadolig Morfa - £20.00
- Ifan Hughes – Angladd Brenda Owen - £630.00
- Siop Pitstop – Cyfraniad at coeden nadolig Morfa - £35.00
- Canolfan Felin Fach – Rent Siop Siarad 1/4/22-31/3/23 - £4680.00
- Ifan Hughes – Angladd Elizabeth Griffiths - £960.00


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737